Sewta
Moving People Yn Symud Pobl

Cynllun Busnes 2006/07

Cynnwys

Rhagair

1. Cyflwyniad

2. Cyfleoedd a Heriau 2006/07

3. Camau Allweddol

4. Rhaglen Gwariant Corfforaethol

5. Rhaglen Cynllun Cyfalaf

Atodiadau

A Cefndir a Rôl Sewta

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno trydydd Cynllun Busnes Sewta sy'n amlinellu ein rhaglen ar gyfer 2006/7 ac yn trafod y cyfleoedd a'r heriau a fydd yn dylanwadu ar ein gwaith yn ystod y flwyddyn nesaf ac yn y blynyddoedd i ddod.

Edrychwn ymlaen at ddigwyddiadau mawr yn ystod 2006/7. Byddwn yn cychwyn ar waith i ailagor rheilffordd Cwm Ebwy i deithwyr yn 2007 a bydd hyn yn dystiolaeth o'r gwelliannau i'n gwasanaethau cludiant cyhoeddus sy'n bosibl gyda llywodraeth, llywodraeth leol a diwydiant yn gweithio mewn partneriaeth. Bydd yn cyfrannu'n aruthrol at adfywiad cymunedau ar hyd Cwm Ebwy ac ar draws ardal Blaenau'r Cymoedd yn gyffredinol.

Heb os, prif her gyfundrefnol y flwyddyn fydd datblygu ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd y gwaith yma'n mynnu bod yr holl bartïon yn cydweithio'n agos a bydd rhaid ymgynghori'n eang ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd er mwyn sicrhau ei fod o fudd i bobl a'i fod yn bosibl ei gyflwyno trwy gyfrwng Awdurdodau cyfansoddol a Phartneriaid.

Bydd y Cynllun yn gofyn ein bod yn datblygu gweledigaeth glir ar gyfer Sewta gydag amcanion newydd yn cwmpasu holl agweddau trafnidiaeth ac yn adolygu ein meini prawf ar gyfer 'Partneriaid' ac efallai yn gwahodd Partneriaid newydd i ategu'r trefniadau partnerol llwyddiannus sydd eisoes yn bodoli.

Byddwn yn parhau i chwarae rhan lawn yn natblygiad Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (STC) i weithredu elfennau trafnidiaeth Cynllun Gofodol Cymru (CGC).

Roedd y Grant Trafnidiaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer 2006/7 yn uwch nag erioed o'r blaen. Edrychwn ymlaen at weithredu gwelliannau mawr wrth barhau â chynnydd ar y rheilffyrdd a bysiau – gan gynnwys estyniadau i blatfformau, cynyddu gallu o ran traciau a signalau, gwell gwasanaethau bws a gwell cyfleusterau ar gyfer teithwyr mewn arosfannau. Byddwn hefyd yn dechrau gweithredu'r strategaethau a gymeradwywyd yn ddiweddar ar gyfer bysiau, rheilffyrdd, beicio a cherdded ac i fynd i'r afael â rhai o'r prif heriau megis Blaenoriaeth Bysiau a Thaliadau Defnyddwyr Ffyrdd.

Bydd cyllid ychwanegol gan LICC yn ein galluogi i ddefnyddio adnoddau ychwanegol yn ein Uned Gynnal Ganolog i fwrw ymlaen â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac i reoli darpariaeth ein rhaglenni corfforaethol a chyfalaf yn brydlon ac i'r pris.

Bydd Sewta'n parhau i hybu rhannu ceir a pharcio a theithio, gan anelu at ostwng nifer y ceir mewn ardaloedd prysur.

Ym mis Hydref bwriadwn gynnal cynhadledd ar Daliadau Defnyddwyr Ffyrdd fydd o bwysigrwydd cenedlaethol yn ogystal â bod yn amserol yn lleol.

Edrychwn ymlaen at gasgliadau astudiaeth i Ffynonellau Cyllid ar gyfer Trafnidiaeth y gobeithiwn fydd yn rhoi syniadau newydd ac arloesol ar gyfer cyllido strategaethau ac, yn y pen draw, yn cynyddu'r cyllid fydd ar gael er mwyn bwrw ymlaen â'n rhaglenni.

At ei gilydd mae'r flwyddyn hon yn addo bod yn un arall gyffrous i Sewta. Edrychaf ymlaen at yr heriau sydd o'n blaenau ac i'r rôl allweddol sydd gan drafnidiaeth i'w chwarae yn nhwf a chynaliadwyedd De Ddwyrain Cymru ac fel ysgogydd ar gyfer economi Cymru.

Cynghorydd Tom Williams

Cadeirydd Sewta

1. Cyflwyniad

Hwn yw'r trydydd Cynllun Busnes y mae Sewta wedi ei baratoi. Ei bwrpas yw amlygu sut y byddwn ni'n parhau i weithredu ein hamcanion, trwy raglen gyd-gysylltiedig o gynlluniau ac astudiaethau trafnidiaeth yn ystod 2006/7 a thu hwnt.

Mae ein Cynllun yn ddogfen fyw, wedi ei bwriadu i ganfod sut y gallwn ni roi ein hunain yn y safle gorau mewn amgylchedd drafnidiaeth sy'n newid o hyd, o ran polisi a chanlyniadau ymarferol, a sicrhau fod Sewta yn parhau i wneud y defnydd gorau o gyfleoedd tymor byr, canolig a hir.

Bob blwyddyn mae'r Cynllun yn cael ei ddatblygu ymhellach gan nodi unrhyw adolygiadau i gynlluniau'r dyfodol. Dylid ei ddarllen ar y cyd gyda'r Adroddiad Blynyddol, fydd yn cyflwyno sylwadau ar gyflawniadau Cynllun Busnes 2005/6 ac yn adlewyrchu llwyddiant cais corfforaethol Sewta am Grant Trafnidiaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Cynllun Busnes hwn a'n Hadroddiadau Blynyddol yn fodd i sicrhau fod busnes Sewta'n cael ei gyflawni mewn modd tryloyw. Maent ar gael mewn print ac ar ein gwefan, sydd hefyd yn dangos llawer o wybodaeth ychwanegol.

Gydag ymadawiad ein dau Gydlynydd Cynllun Trafnidiaeth, mae'r ddau swyddog newydd wedi dechrau o'r newydd, gan weithio gydag ysgolion a busnesau, ar y cyd gyda gweithredwyr bysiau, PTI Cymru ac eraill, i godi ymwybyddiaeth o gludiant cyhoeddus, rhannu ceir ac opsiynau beicio a cherdded.

Ym mis Ionawr 2006 penodwyd Rheolwr Cynllunio newydd i fod yn gyfrifol am gyflwyno'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh). Mae ei raglen waith ar gyfer 2006/7 yn seiliedig ar sicrhau cysylltiad priodol gyda Chynllun Gofodol Cymru a Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Mae'n gyfrifol am gydlynu gwaith ymchwil ac astudiaethau a threfnu trafodaethau gyda Phartneriaid, Rhanddeiliaid a'r cyhoedd er mwyn sicrhau fod y Cynllun, sydd i'w gyflwyno yn 2008, yn Gynllun gwirioneddol gynhwysol, realistig ond yn un uchelgeisiol a chyflawnadwy.

O dderbyn cyllid ychwanegol gan LICC rydym wedi gallu cynyddu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer yr Uned Gynnal Ganolog (UGG). Mae strwythur newydd yr uned yma i'w weld yn y diagram isod.

Insert Organogram here

Tra bod yr UGG yn cefnogi'r gwaith mewn nifer o ffyrdd, mae Sewta'n elwa hefyd o allu defnyddio arbenigedd y deg awdurdod unedol a'i bartneriaid i ddarparu cyngor arbenigol ar ystod eang o faterion. Mae materion yn cael eu trin trwy gyfrwng ei strwythur fel y gwelir isod:

Diagram Illustrating how Partnership works to follow

2. Cyfleoedd a Heriau 2006/07

Mae'r adran hon wedi ei rhannu'n ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn dangos effaith deddfwriaeth newydd, newidiadau sefydliadol a materion yn ymwneud ag adnoddau. Mae'r ail ran yn rhoi manylion rhaglen Sewta ar gyfer 2006/7 a thu hwnt.

Materion allweddol sydd ar y gweill ar gyfer 2006/7 a thu hwnt

Mae rhaid i'r Cynllun Busnes hwn ddeall a rhoi ystyriaeth i'r digwyddiadau a'r materion sy'n debygol o effeithio ar waith Sewta yn 2006/7 ac wedi hynny. Mae'r adran hon yn ystyried sut y gall Sewta elwa orau o gyfleoedd, dylanwadu trafodaethau polisi a sicrhau ei fod yn barod i wynebu'r heriau o'i flaen.

Newid Deddfwriaethol a Sefydliadol

Cynllun Gofodol Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu datblygu'r Cynllun Gofodol. Mae'r Cynllun Gofodol yn pwysleisio fod system drafnidiaeth integredig effeithiol yn ganolog i weithrediad ardal: croesawir gwelliannau sydd eisoes yn cael eu cynllunio gan LlCC a Sewta, megis ail-agor rheilffordd Cwm Ebwy.

Gellir ystyried bod yr ardaloedd sy'n cael eu cwmpasu gan Sewta a rhanbarth rhwydwaith y Brifddinas fel y caiff ei ddiffinio yn y Cynllun Gofodol, yn gydffiniol. Gwahoddwyd Sewta i arwain datblygiad y ddogfen cychwyn prosiect trafnidiaeth (DcP Trafnidiaeth) integredig ac mae wedi derbyn y gwahoddiad hwnnw.

Mae gwaith Sewta wedi ei ganoli ar chwech astudiaeth pwnc. Bydd tri ohonynt yn cael eu trafod mewn fforwm ehangach na diddordeb Sewta yn y DcP Trafnidiaeth. Y rhain yw:

- Diwygio TAN18 i adlewyrchu anghenion y Cynllun Gofodol a'r berthynas rhwng trafnidiaeth, cynllunio a'r fframweithiau cyllido newydd sydd eu hangen i gyflwyno'r Cynllun Gofodol.
- Dadansoddiad o hygyrchedd Cymru-gyfan. Bydd hyn er mwyn hysbysu rheolaeth gwasanaethau dan ddylanwad cyhoeddus a chynlluniau defnydd tir yn ogystal ag er mwyn rheoli a datblygu'r system drafnidiaeth.
- Ystyriaeth o agweddau trafnidiaeth yr astudiaethau DcP mewn perthynas â safleoedd mawr a rôl yr aneddiadau.

Bydd Sewta ei hun yn rheoli'r tair astudiaeth arall. Y rhain yw:

- Deall rôl Taliadau Defnyddwyr Ffyrdd wrth iddynt ddylanwadu ar gynllunio gofodol.

- Gweld sut y gall gwasanaethau cyhoeddus (e.e. Iechyd) ystyried effeithiau trafnidiaeth ar eu gweithgareddau yn well.
- Ymgynghori'n eang ar faterion sy'n effeithio ar drafnidiaeth a'r Cynllun Gofodol yn ne ddwyrain Cymru.

Bwriedir cwblhau'r gwaith yma erbyn mis Rhagfyr 2006.

Strategaeth Trafnidiaeth Cymru

Disgwylir y caiff copi drafft o'r Strategaeth ei gyhoeddi yn ystod 2006. Cyfrannodd Sewta ati yn anffurfiol yn ystod 2005/6 a disgwylir y fersiwn derfynol yn awchus. Bydd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn dilyn cyn cyhoeddi Strategaeth derfynol ar ddiwedd 2006.

Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar 'ganlyniadau'. Diffinnir 'canlyniad' fel mater sy'n berthnasol i drafnidiaeth a ellir ei fesur, sy'n bwysig i'r gymuned ac y gellir ei ddylanwadu gan bolisi cyhoeddus. Bydd y 'canlyniadau' yn cynnwys, ymhlith eraill, mynediad at wasanaethau iechyd, diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig, a lleihau'r angen i deithio. (Mae 13 o ganlyniadau arfaethedig.)

Bydd Sewta yn parhau i gyfrannu at ddatblygiad y strategaeth ac i fynegi barn fel y bo'n briodol ar y drafft terfynol.

Mae'n bosibl y bydd awdurdodau cyfansoddol Sewta yn ystod y flwyddyn i ddod yn gorfod nodi materion allweddol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol y dyfodol oherwydd bydd rhaid iddynt gymryd ystyriaeth o'r Cynllun Gofodol. Bydd Sewta'n cydweithio gyda Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru i sicrhau fod dynodi defnydd tir integredig a chynllunio trafnidiaeth yn cael ei gydnabod yn fater allweddol ar gyfer y rhanbarth gan weithio tuag at fframwaith polisi effeithiol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer De Ddwyrain Cymru

Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006

Cafodd Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 Gydsyniad Brenhinol ar 16eg Chwefror 2006. Mae'r Ddeddf yn rhoi grym i'r Cynulliad Cenedlaethol i orfodi awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd ac i sefydlu Awdurdodau Trafnidiaeth Rhanbarthol, a fydd yn cyflawni rhai/pob un o'r pwerau sydd gan awdurdodau unedol ar hyn o bryd.

Mae Sewta wastad wedi honni nad oes angen y pwerau hyn ond mae'n cydnabod eu bod bellach yn rhan o'r gyfraith. Mae Sewta'n bwriadu dangos nad oes angen i'r Cynulliad ddefnyddio'r pwerau y mae'r Ddeddf Trafnidiaeth yn eu darparu:

- Drwy gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol erbyn 2008 sy'n gyson gyda Chynllun Gofodol Cymru a Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ac sy'n bodloni anghenion y rhanbarth.
- Drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill i'w galluogi hwy i wella eu gwasanaethau trafnidiaeth.

- Drwy gyflawni ei raglen waith gyfredol.
- Drwy gynhyrchu a galluogi rhaglen rheoli busnes sydd â'r nod o sicrhau cydweithio effeithiol a darpariaeth gwasanaethau technegol mewn perthynas â thrafnidiaeth.

Cynllun Trafnidiaeth Lleol

Mae Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 yn darparu bod Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi cyfarwyddyd i'r Consortia Rhanbarthol a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol ynglŷn â'r agweddau a'r moddau y dylent eu mabwysiadu wrth lunio'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Bydd y CTRh yn parhau'n ddogfen anstatudol nes bod y Cynulliad wedi pasio Gorchymyn i ffurfioli'r cynllun fel modd i gyflawni cyfrifoldebau cynllunio lleol.

Mae'r awdurdodau lleol i gyd wedi cytuno dechrau cynhyrchu'r cynllun cyn mabwysiadu Deddf Trafnidiaeth (Cymru). Mae'r cychwyn cynnar hwn yn hanfodol os ydym am gyflwyno Cynllun drafft yn yr haf 2007.

Mae'r gwaith o lunio'r Cynllun wedi dechrau. Mae'r rhaglen ar gyfer y gwaith i'w gweld yn **Nhabl 1**

Fframwaith Strategol Blaenau'r Cymoedd

Yn ystod diwedd 2005/6 buom mewn cysylltiad â thîm Blaenau'r Cymoedd (BC) i drafod y mater o gydweithio. Rydym eisoes wedi cyfrannu gwybodaeth am wasanaethau trafnidiaeth presennol yn yr ardal a thrafod polisïau Sewta gyda'u hymgynghorydd. Rydym hefyd wedi agor trafodaethau ynglŷn â defnyddio cynllunio hygyrchedd a modelu ACCESSION i sicrhau fod defnydd tir a phenderfyniadau gofodol yn cyd-fynd â'r rhwydweithiau trafnidiaeth presennol a chynlluniedig ar gyfer yr ardal ac i leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn ceir, gymaint â phosibl. Yn dilyn trafodaethau llwyddiannus, mae trefniadau wedi cael eu gwneud i ddatblygu ar y cyd gynllun cwmpasu ar gyfer cydweithio.

Mae mynediad i ardal fwy cefnog gwastadedd yr arfordir yn bwysig i'r ardal yn ogystal â chynnydd yng ngallu'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghaerdydd a Chasnewydd a dygwyd hyn i sylw tîm BC. Bydd mwy o weithio mewn partneriaeth yn 2006/7 er mwyn datblygu strategaeth drafnidiaeth ar y cyd ar gyfer yr ardal ac i geisio am gyllid i weithredu'r rhaglen.

Tabl 1 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Rhaglen Baratoi

	2006												2007					
GWEITHGAREDD	ION	CHW	MAW	EBR	MAI	MEH	GOR	AW	MED	HYD	TACH	RHA	ION	CHW	MAW	EBR	MAI	MEH
Cytuno ar amlinelliad y cynllun a'r broses gynllunio	*	*	*	*	A													
Astudiaeth cwmpasu ac ymchwil ar bolisïau presennol – adroddiad ar yr arolwg		*	*	*	*	A												
Penderfynu ar restr ymgynghorwyr tymor		*	*	*	A													
Astudiaeth gwmpasu o briffyrdd		*	*	*	*	*	A											
Adolygu strategaethau bysiau, rheilffyrdd a beicio			*	*	*	A												
Adroddiad rheoli busnes				*	*	*	*	A	*	*	A							
Cytuno ar bynciau i'w cynnwys yn y CTRh						*	*	A										
CTRh amlinellol						*	*	*	*	*	*	A						
Contractau ymgynghori pellach							*	*	*	*	*	*	*	A				
Adolygu'r cynllun yn erbyn CGC										*	*	A						
Adolygiad AAS			*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	A			
CTRh drafft												*	*	*	A			
Cynhyrchu'r cynllun terfynol a'i gyflwyno															*	*	*	A

A = adroddiad carreg filltir

Rhyngwyneb gyda Chyrff Eraill

Fel y nodwyd uchod, bydd Sewta'n parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu polisïau a strategaethau a chyflwyniad rhaglenni. Ar yr un pryd mae Sewta'n awyddus i adeiladu ar y berthynas waith sy'n bodoli eisoes gyda'r cyrff eraill yn Ne Ddwyrain Cymru, yn enwedig y Fforwm Economaidd (SEWEF) a'r Grŵp Cynllunwyr Strategol (SEWSPG). Byddwn yn parhau i geisio dylanwadu ar eu penderfyniadau parthed datblygu economaidd a strategol.

Mae rhyngwynebau wedi eu sefydlu gyda'r tri chonsortiwm trafnidiaeth arall yng Nghymru, gan edrych yn benodol ar faterion yn ymwneud a chroesi ffiniau, a chyda Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Edrychwn ymlaen at barhau'r deialog yma mewn modd agored ac adeiladol i fynd i'r afael â materion trafnidiaeth sy'n effeithio arnom ni oll ac er mwyn hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Trafnidiaeth mewn perthynas ag amcanion eraill, yn rhai amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Rydym hefyd wedi dechrau trafodaethau gyda'r Greater Bristol Strategic Transport Strategy.

Byddwn yn ymuno â thrafodaethau ar unrhyw fater sydd â goblygiadau o ran y rhwydwaith trafnidiaeth sy'n gwasanaethu ein hardal gyda'r bwriad o leihau'r angen i deithio, cynyddu defnydd o foddau teithio heblaw mewn car a gwella dibynadwyedd ein rhwydweithiau.

Taliadau Defnyddwyr Ffyrdd

Mae Cyngor Caerdydd wedi sefydlu trefniant Partneriaeth Cyhoeddus Preifat gyda Capita Mowlem, gyda'r bwriad o hwyluso pob math o welliannau trafnidiaeth ar draws y ddinas, wedi eu cyllido drwy daliadau defnyddwyr ffyrdd. I bob diben bydd yr ymagwedd yma'n darparu digon o arian i ganiatáu i'r Bartneriaeth gyllido gwelliannau i'r isadeiledd fysiau, yn enwedig mesurau Blaenoriaeth Bysiau, yn ogystal â nifer o welliannau parcio a theithio a chwblhau'r rhwydwaith priffyrdd strategol ar gyfer y ddinas.

Mae gan y posibilrwydd y bydd Caerdydd yn cyflwyno taliadau defnyddwyr ffyrdd oblygiadau pwysig o ran trafnidiaeth a chynllunio yn ardal Sewta, gan gymryd y camau cyntaf tuag at fesurau cyllidol i annog newid moddol a lleihau dibyniaeth ar y car preifat. Bydd proffil safleoedd parcio a theithio/parcio a rhannu sy'n gwasanaethu Caerdydd yn debygol o godi wrth i gymudwyr geisio osgoi talu am ddefnyddio'r ffyrdd. Mae cynllun rhannu ceir Sewta yn debygol o fod yn bwysicach wrth i yrwyr geisio gwneud defnydd mwy effeithlon o gerbydau.

Bwriwyd ymlaen yn 2005/6, â'r gwaith o ddeall effaith taliadau defnyddwyr ffyrdd yng Nghaerdydd a disgwyliwn y bydd manylion cynigion y Bartneriaeth yn dechrau ymddangos yn gynnar yn 2006. Mae Caerdydd yn ymwybodol y byddai rhaid i gynnig o'r fath fod yn gynllun gwirioneddol ranbarthol gyda chostau a manteision yn cael eu rhannu'n briodol. Bydd Sewta'n parhau i gydweithio gyda Chyngor Caerdydd i sicrhau fod barn yr awdurdodau cyfagos a'u hetholwyr yn cael eu hadlewyrchu'n iawn yn y cynllun terfynol er lles y rhanbarth cyfan. Rhaid deall profiadau negyddol cynllun o'r fath yng

Nghaeredin os yw codi tâl yn mynd i gael ei gyflwyno'n llwyddiannus yn ardal Sewta.

Rheoli Cyllid a Phrosiect

Mae Rheoli Prosiect yn allweddol o ran sicrhau fod cyllid yn cael ei reoli yn yr un modd â'r prosiectau. Oherwydd hyn cynhaliwyd seminar i annog a rhannu arfer da o ran rheolaeth cyllid a phrosiect. Sefydlwyd gweithdrefnau cyllid llym a chaiff pyrth a fframweithiau penderfynu eu sefydlu er mwyn asesu prosiectau a'r rhaglenni cyfalaf a chorfforaethol i sicrhau fod gwerth am arian a risg yn cael eu hystyried yn llawn ac yn dryloyw ym mhob cyfnod o fywyd prosiect.

Bydd Sewta'n parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y trefniadau cyllido yn cael eu deall yn glir a bod darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer monitro gwybodaeth allborth fel bo angen. Hefyd bydd rhaid adeiladu terfyniad Amcan 1 a chychwyn Cronfeydd Strwythurol Cydgyfeirio i mewn i broffilio cyllidol cynlluniau dros y blynyddoedd nesaf.

Grant Trafnidiaeth

Cyflwynwyd cais Sewta am Grant Trafnidiaeth ym mis Awst 2005 ac, yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ni chyflwynwyd unrhyw gynlluniau newydd. Cyfanswm cais Sewta ar gyfer 2006/7 oedd £39.018 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys cais corfforaethol Sewta o £400,000. Cyflwynodd Sewta gais ar wahân ar gyfer cynlluniau cerdded a beicio yn y rhanbarth.

Daeth dyraniad y Cynulliad ar gyfer cynlluniau'n ymwneud â thrafnidiaeth i gyfanswm o £31.260 miliwn. Cymharir hyn â dyraniad cyfan y llynedd o oddeutu £19 miliwn.

O fewn y taliad, mae dyraniad uwch o £22.029 miliwn ar gyfer cynlluniau rheilffyrdd (£12.609 miliwn ar gyfer rheilffordd Cwm Ebwy, £3.6 miliwn ar gyfer ymestyn platfformau ar reilffordd Rhymni, £3.1 miliwn i wella amlder trenau o Bontypridd i Ferthyr ac £1.92 miliwn ar gyfer gorsaf Llanharan). Gyda chyllid cyfatebol Amcan 1 Ewropeaidd, bydd y buddsoddiad yma'n cael ei gynyddu gan £3.45 miliwn arall.

Mae £8.331 miliwn wedi cael ei ddyrannu yng nghategori "pecynnau trafnidiaeth", sy'n cynnwys cynlluniau blaenoriaeth bysiau a rhwydweithiau, cyfnewidfeydd a pharcio a theithio o safon. Mae hyn yn debyg i'r £8.553 miliwn a ddyrannwyd llynedd. O fewn y cyfanswm hwn mae dyraniad o £3.796 miliwn ar gyfer cynlluniau gwella bysiau yng Nghaerdydd, £1.77 miliwn ar gyfer cyfnewidfeydd trafnidiaeth Pen-y-bont a Chwmbrân a £0.5 miliwn ar gyfer Lôn Fysiau Cardiff Road a'r Merrie Harrier (Bro Morgannwg).

Mae'r taliad ar gyfer trydedd flwyddyn ein rhaglen beicio 3 blynedd lwyddiannus hefyd yn cynnwys dyraniadau ar gyfer 2006/7 er mwyn gallu cwblhau'r rhaglen ynghyd â dyraniadau ymlaen llaw ar gyfer 2007/8

Ein her yn awr yw cyflawni'r prosiectau yma i gyd o fewn y terfynau amser a'r cyllidebau a gymeradwywyd yn seiliedig ar ein pwyslais yn ddiweddar ar well rheoli prosiect.

Dyrannwyd £0.500 miliwn hefyd i Bartneriaeth Trafnidiaeth Caerdydd, a chyfanswm o £1.675 miliwn i awdurdodau lleol o fewn ardal Sewta ar gyfer pymtheg o gynlluniau Llwybrau Diogel i'r Ysgol.

Croesawir y cyllid ychwanegol, o'i gymharu â blynyddoedd diweddar, ar gyfer strategaeth Sewta. Fodd bynnag, mae'r lefel gwariant sydd ei angen i gwrdd â'r galw am welliannau mawr yn yr isadeiledd drafnidiaeth yn mynnu rhaglen gyllid fwy, ac mae'n hanfodol ein bod yn dal i chwilio am ffrydiau cyllid tebyg i'r hyn sy'n cael ei archwilio fel rhan o Bartneriaeth Trafnidiaeth Caerdydd.

Ym mis Awst 2006 bydd Sewta'n paratoi ac yn cyflwyno dogfen cais corfforaethol yn amlygu rhaglen prosiectau ac astudiaethau corfforaethol Sewta ar gyfer 2007/8. Fodd bynnag mae'r ddogfen hon yn debygol o gynnwys nifer o'r cynlluniau y manylwyd arnynt yng nghais y flwyddyn flaenorol, yn enwedig os na wahoddir unrhyw gychwyniadau newydd, a bydd y bwlch cyllid yn anochel yn golygu y bydd oedi mewn rhaglenni prosiect. Mae Sewta'n awyddus fod cynlluniau newydd yn cael eu cyflwyno am gyllid GT. Byddwn yn parhau i lobïo Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau fod hyn yn digwydd.

Amcan 1 a Rhaglenni Cyllido Strwythurol UE y Dyfodol

Dylai'r rhaglenni cronfeydd strwythurol newydd Cydgyfeirio, Cystadleurwydd a Chydweithrediad Tiriogaethol ddechrau yn 2007. Bydd y rhaglen Cydgyfeirio yn disodli'r hen Amcan 1. Bydd rhaglen Cystadleurwydd yn disodli rhaglen Amcan 2 a Chydweithrediad Tiriogaethol yn cymryd lle'r rhaglenni Interreg.

Cadarnhawyd fod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn rhanbarth Cydgyfeirio, hyd yn hyn ni wnaethpwyd penderfyniad ynghylch yr ardaloedd cystadleurwydd yn y DU. Mae Dwyrain Cymru (gan gynnwys Casnewydd, Sir Fynwy, Caerdydd a'r Fro) yn lobïo i fod yn ardal Cystadleurwydd.

Yn y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol drafft a gyflwynwyd i'r Adran Masnach a Diwydiant, amlinellodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y rhaglenni a'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer Cydgyfeirio, Cystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth a Chydweithrediad Tiriogaethol:

Cydgyfeirio (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)
ERDF

- Hybu economi Cymru gyda gwerth ychwanegol wrth wella gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf

- Creu amgylchedd busnes ffafriol
- Adeiladu cymunedau cynaliadwy

Cystadleurwydd Rhanbarthol (Dwyrain Cymru)
ERDF
- Adeiladu'r economi seiliedig ar wybodaeth
- Gwella'r amgylchedd
- Hybu hygyrchedd

Cydweithrediad Tiriogaethol Cymru (Cymru-gyfan)
ERDF
- Economi seiliedig ar wybodaeth
- Amgylchedd a chynaliadwyedd

Rhaglenni adnoddau dynol (Cymru-gyfan)
ESF
- cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgaredd economaidd
- gwella lefelau sgiliau

Mae hi'n debygol y caiff trafnidiaeth ei amlygu mewn nifer o'r blaenoriaethau hyn. Dylai cyllid yn y dyfodol ganolbwyntio ar wella mynediad at wasanaethau allweddol; cynlluniau cludiant cymunedol; trafnidiaeth gynaliadwy a chysylltiadau eilaidd; datblygu cysylltiadau rhyng-foddol; gwell mynediad at isadeiledd rheilffyrdd; gwell isadeiledd ffyrdd; ymwneud mewn cynlluniau isranbarthol a rhanbarthol allweddol a manteisio ymhellach ar flaenoriaeth Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd.

Mae Sewta'n elwa o'r ffaith fod rhan o'i ardal wedi'i chynnwys yn yr ardal sy'n gymwys i dderbyn cyllid Amcan 1. Mae'r ardal yma'n cwmpasu Cynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Mae Sewta wedi gwneud cais am gyllid rhaglen Amcan 1 o dan Blaenoriaeth 6 Mesur 1, sydd â'i nod i ddatblygu system effeithlon ar gyfer hwyluso symud pobl a nwyddau mewn modd cynaliadwy. Y prif gynlluniau yng nghais Sewta yw:

- Gwelliannau i'r trac a'r signalau ar reilffordd Cwm Rhymni (£6.8 miliwn): prosiect yw hwn i wella'r trac a'r signalau er mwyn creu'r gallu ychwanegol sydd ei angen i gynyddu amlder y trenau rhwng Caerffili a Bargoed. Mae hefyd yn cynnwys ymestyn platfformau ar gyfer trenau chwe cherbyd. Mae trydydd cam fydd yn darparu gorsaf newydd yn Energlyn a gwelliannau fydd eu hangen er mwyn cynyddu amlder trenau rhwng Bargoed a Rhymni sydd wedi ei raglennu i ddigwydd y tu allan i gyfnod y Rhaglen Amcan 1.

- Gwelliannau i drac gogleddol a signalau ar reilffordd Dyffryn Taf (£19.1 miliwn): bydd y prosiect hwn yn cynnwys gwaith sylweddol sydd ei angen i ganiatáu gwasanaeth bob hanner awr i Ferthyr Tudful a chyfuno gorsafoedd Gogledd Abercynon a De Abercynon yn un orsaf newydd gyda chyfleuster parcio a theithio gwell. Mae ail gam fydd yn ymestyn platfformau i gymryd trenau chwe cherbyd i Dreherbert yn gynllun wrth gefn o fewn y Cynllun Gweithredu Amcan 1 Is-ranbarthol. Mae'r cam olaf fydd yn rhoi gwelliannau fydd eu hangen er mwyn gweithredu gwasanaeth teithwyr bob hanner awr i

Aberdâr a gwell gwasanaeth nwyddau wedi ei raglennu i ddigwydd y tu allan i gyfnod y Rhaglen Amcan 1.

- Gwelliannau i Drac a Signalau Rheilffordd Maesteg (£3 miliwn): mae'r prosiect hwn yn cynnwys darparu gorsaf newydd yn Llanharan. Mae ail gam fydd yn ymestyn y platfformau yng Nghwm Llynfi i gymryd trenau pedwar cerbyd yn gynllun wrth gefn o fewn y Cynllun Gweithredu Amcan 1 Is-ranbarthol. Mae'r cam olaf fydd yn darparu gorsaf newydd ym Mracla a'r isadeiledd angenrheidiol i gynnal gwasanaeth bob hanner awr rhwng Maesteg, Pen-y-bont a Chaerdydd wedi ei raglennu i ddigwydd y tu allan i gyfnod y Rhaglen Amcan 1.

Mae Cyfnewidfa Gorsaf Rheilffordd Cwmbrân (£3,037,500) wedi elwa o gyllid UE hefyd. Mae'r cynllun yn cynnwys gwelliannau sylweddol yn yr orsaf hon gan gynnwys adeilad gorsaf newydd, gwell amgylchedd aros i deithwyr a gwelliannau cysylltiedig, ynghyd â chyfleusterau cyfnewid bws/rheilffordd. Defnyddiwyd dyfarniad Grant Trafnidiaeth o £1,950.000 fel cyllid cyfatebol i gael £1,087,500 o gyllid Amcan 1.

Ym mis Awst 2005 cafwyd cymeradwyaeth am arian gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a dechreuwyd ar waith gwella trac a signalau ar reilffordd Cwm Rhymni. Disgwylir y bydd hyn wedi ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2006. Ym mis Rhagfyr 2005, caniatawyd rhagor o arian drwy WEFO ar gyfer ymestyn platfformau ar Reilffordd Cwm Rhymni i gymryd trenau chwe cherbyd. Gyda chaniatâd Llywodraeth Cynulliad Cymru bydd y platfformau i gyd yn cael eu hymestyn i 124m gyda darpariaeth oddefol er mwyn osgoi costau os bydd angen ymestyn i 147m yn y dyfodol.

Cyhoeddodd Andrew Davies ym mis Rhagfyr 2005 fod gorsaf Llanharan wedi cael ei chymeradwyo a bod Grant Trafnidiaeth yn cael ei ddyfarnu ar ei chyfer. Wedi cael caniatâd cynllunio, a chytundeb y partïon i gyd gan gynnwys Network Rail ac Arriva, bydd cyllid ar gyfer yr elfen hon o gynlluniau rheilffyrdd Amcan 1 Sewta yn cael ei ryddhau gan WEFO. Caiff yr elfennau eraill o gais Amcan 1 Sewta eu cymeradwyo cyn belled â bod Sewta yn bodloni cyfres o feini prawf a gytunwyd. Mae'r cynlluniau wrth gefn yn cael eu gwthio ymlaen i sefyllfa lle y gellid cychwyn ar waith posibl pe bai angen.

3. Camau Allweddol 2006/7

Mae'r tabl isod yn nodi'r camau penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn gysylltiedig ag ymatebion i'r materion sy'n codi a nodir uchod. Mae'r gweithgareddau hefyd wedi eu cysylltu ag amcanion perthnasol Sewta i ddangos sut mae pob un o'r amcanion yn cael ei ddatblygu. Mae hi'n bwysig nodi nad yw'r camau wedi cael eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth.

Rh.	Camau Allweddol 2006/7	Targed	Amcanion Perthnasol Sewta
1	Cyflwyno CTRh, gan gynnwys AAS ac Ymgynghoriadau i gwrdd ag amserlen LlCC – (Rheolaeth astudiaethau/ ymgynghori/ paratoi drafftiau ac ati)	• Cyflwyno 'Blaenoriaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol' a CTRh Amlinellol Hydref 2006 • Cyflwyno drafft terfynol Gorffennaf 31ain 2007	1-7
2	Datblygu strategaethau modd unigol ac integreiddio i mewn i Strategaeth Trafnidiaeth gynhwysfawr drwy Astudiaethau ac Ymgynghori	• Datblygu rhaglenni amcan ac • Fel uchod	2
3	Sicrhau grym llais Sewta (ee CGC/STC/SEWEF/SEWSPG ac ati)	• Cwrdd bob tri mis (o leiaf)	1,3,7
4	Gweithio gyda Chaerdydd i sicrhau bod Taliadau Defnyddwyr Ffyrdd yn bodloni anghenion rhanbarthol	Sicrhau bod astudiaethau perthnasol yn cael eu cynnal i lywio'r trafod	1,2,5
5	Cynnal Astudiaethau Cynllunio Hygyrchedd	Ar y cyd gyda BC	1, 3, 4
6	Gweithio gyda thîm BC	Trafnidiaeth yn elfen allweddol o'u strategaeth	1,3,4
7	Cynnal adolygiad o flaenoriaethau rhwydwaith ffyrdd rhanbarthol a gwelliannau fel rhan o'r CTRh	• Cyflawni asesiadau o amcanion • Sefydlu hierarchaeth ranbarthol • Blaenoriaethau cynnal a chadw	2,6
8	Rheilffordd Cwm Ebwy (Cam 1) Rheilffordd Cwm Ebwy (Cam 2)	• Gwaith ar y safle i ddechrau 06/07 • Gorffen gwanwyn 2007 • Parhau i lobïo am y cychwyn cynharaf posibl	2,3,4
9	Gwasanaeth Uned Gynnal Ganolog	Cwblhau trefniadau (dibynnol ar benderfyniad LlCC)	1-7
10	Monitro	Sicrhau fod data arfaethedig yn cwrdd ag anghenion ac yn bwydo adroddiad blynyddol	5,6
11	Datblygu Gweledigaeth. Amcanion newydd ac adolygiad o feini prawf partneriaid a chyrff i gwrdd â'r meini prawf	Cwblhau erbyn Medi 2006	1-7
12	Gwella rheoli prosiect rhaglen cynlluniau Grant Trafnidiaeth	Gwario 100% dyraniadau	5,6
13	Cyfrannu at ddatblygiad SDC a Dogfennau Gwybodaeth Rhaglen CGC	Yn parhau	3
14	Gweithio gyda Network Rail i sicrhau cynlluniau isadeiledd rheilffyrdd o fewn rhaglen Amcan 1	Sicrhau bod contractau gwaith yn eu lle erbyn Rhagfyr 2006	1,2,3,4,5

4. Cyllid – Rhaglenni Gwariant Corfforaethol

Cyfalaf

CAIS CORFFORAETHOL SEWTA					
Math o gynllun	**Disgrifiad**	**AU**	**Cais**	**Taliad**	**Graddfa Amser**
Cais Corfforaethol			2006/07	**2006/07**	
Nodyn 1	Corfforaethol Sewta – dadansoddiad i'w gynnwys ar ôl gwneud penderfyniad	CBST	400	**400**	
Is Gyfanswm Ceisiadau Corfforaethol			400	**400**	

CYLLIDEB CYFALAF

Gweithgor	Teitl Prosiect	Cyllideb Arfaethedig
Gw. Rheilffyrdd	Datblygiad Strategaeth Rheilffyrdd Sewta (2009-20018)	£80,000
Gw. Rheilffyrdd	Gwella Data Cyfrif Trenau	£10,000
Gw. Rheilffyrdd	Cynllun Gweithredu Amcan 1 Is-ranbarthol Sewta	£30,000
Gw. Bysiau	Cyngor a Chefnogaeth Dechnegol	£35,000
Gw. Bysiau	Casys Arddangos Amserlenni	£5,000
Gw. Bysiau	Costau paratoi, cynhyrchu a dosbarthu gwybodaeth	£20,000
Gw. Bysiau	Cyhoeddiadau a chyhoeddusrwydd o blaid bysiau	£10,000
Gw. Bysiau	Gwaith dilynol ychwanegol yn deillio o'r Strategaeth Bysiau	£10,000
Gw. Polisi	Astudiaeth Parcio Beiciau Brand	£10,000
Gw. Polisi	Datblygu Strategaeth Beicio	£20,000
Gw. Polisi	Datblygu gwefan Rhannu Ceir i gynnwys Parcio a Rhannu	£5,000
Gw. Polisi	Dynodi safleoedd Parcio a Rhannu posibl	£10,000
Gw. Polisi	Hybu a marchnata parhaus o'r gronfa ddata rhannu ceir	£30,000
CTRh	Astudiaeth Polisi, Arferion a Materion AU (Ymgynghorwyr)	£50,000
CTRh	Astudiaeth Amgylcheddol Strategol	£15,000
CTRh	Seminarau, Gweithdai ac Ymgynghoriadau	£20,000
CTRh	Astudiaethau Pynciau Eraill	£40,000
CTRh	Astudiaeth Priffyrdd (Ymgynghorwyr)	£40,000
CTRh	Astudiaethau Hygyrchedd (Ymgynghorwyr)	£25,000
CTRh	CGC – Hwyluso Silo ac Astudiaethau eraill	£25,000
Ysgrifenyddiaeth	Cefnogaeth – GT, Rheoli Prosiect, Cynllunio Busnes	£25,000
Wrth gefn		£29,290

CYFANSWM	**£544,290**
Cyllid ar gael (gyda thanwariant disgwyliedig)	£544,290
Diffyg	£0

Cyllideb Refeniw 2006/7 (220306)

EITEM	CAIS (£)	Dyraniad	Cais	Sylw
Rhaglen Fonitro	45000		45000	Grant arbennig LICC
Amryfal Gefnogaeth i'r Ysgrifenyddiaeth	10000		10000	Cyllid, taliadau post, hurio ystafelloedd ac ati
Ffioedd Giraffe	35000		32000	contract wedi ei gytuno
Alldaliadau C&PA WG	15000		15000	cynnal gwefan, cefnogaeth cynnal gwefan, offer, cynadleddau ac ati
Uned Gynnal Ganolog (Staff) - cynnwys TPC	**400000**		**351000**	
Uned Gynnal Ganolog (Treuliau)			8000	
Chwyddiant Lwfans a Gariwyd Drosodd i 07/08			**10,000**	**3% tybiedig llai peth effeithlonrwydd**
CYFANSWM	505,000	450,000	471,000	
Gweddill (2004/5)		21,000		i'w gadarnhau
Cyfanswm ar gael i'w wario		**471,000**	**471,000**	
Diffyg			**0**	

Manylion i ddilyn penderfyniad ynghylch adroddiad ariannol a phenderfyniad LICC ynghylch yr UGG

Rhaglen Grantiau Trafnidiaeth 2006 / 07 (£000)					
Math o gynllun	**Disgrifiad**	**AU**	**Cais 06/07**	**Taliad 06/07**	**Graddfa amser**
Cais Corfforaethol	Corfforaethol Sewta	Amh	400	**400**	
Rheilffyrdd					
	Rheilffordd Cwm Ebwy [Pecyn M-03]	BG C N	12609	**12609**	2003/04-2006/07
	Gorsaf Llanharan	RhCT	2950	**1920 ***	2001/02-2006/07
	Gwelliannau Amlder Rheilffordd Maesteg (yn cynnwys gorsaf Bracla)	P	500	**100***	2003/04-2009/10
	Gorsaf Heol y Frenhines, Gwelliannau Gallu	DC	1453	**0**	2000/01-2009/10
	Rheilffordd Cwm Rhymni (yn cynnwys gorsaf Energlyn)	C	5552	**3600***	2003/04-2008/09
	Gogledd Dyffryn Taf	RhCT MT	5270	**3600***	2001/02-2007/08
Is gyfanswm Rheilffyrdd			***28334***	***21829***	
Cynlluniau Blaenoriaeth Bysiau	Gwelliannau Coridor Bysiau yr A470	DC	1501	1501	1999/2000-2009/10
	Mesurau Blaenoriaeth Bysiau Pen-y-bont	P	800	0	
	Mesurau Blaenoriaeth Bysiau Cardiff Road a Chyffordd Merrie Harrier	B	750	500	2001/02-2006/07
	Llwybrau Bysiau Canol Dinas Caerdydd	DC	1000	730	2003/04-2006/07
	Blaenoriaeth Bysiau Deallus a Gwybodaeth Amser Gwirioneddol i Deithwyr (Pecyn S-03)	M CN	130	130	2003/04-2006/07
	Coridor y Gorllewin, Caerdydd	DC	1970	1565	2004/05-2007/08
Is gyfanswm Cynlluniau Blaenoriaeth Bysiau			***6151***	***4426***	
Cyfnewidfeydd					
Nodyn 3	Cyfnewidfa Y Fenni (Pecyn Q-03)	M	250	250	2003/04-2006/7
	Gorsaf Ganolog Y Barri	B	50	50	2001/02-2006/07
	Cyfnewidfa Coed Duon a Rhwydwaith Bysiau o Safon (Pecyn R-03)	C	1190	1190	2003/04-2005/06
	Cyfnewidfa Drafnidiaeth Pen-y-bont	P	1000	1000	2001/02-2006/07

	Cyfnewidfa Cwmbrân a Rhwydwaith Bysiau o Safon (Pecyn P-03)	T	881	770	2003/04-2006/07
	Cyfnewidfa Pont-y-pŵl a New Inn	T	137	0	
Nodyn 4	Cyfleuster Trafnidiaeth Integredig Merthyr Tudful	MT	20	20	2000/01-2004/05
	Cyfnewidfa Bysiau/Rheilffordd Porth	RhCT	200	200	2003/04-2006/07
Nodyn 3	Cyfnewidfa Cyffordd Twnnel Hafren (Pecyn T-03)	M	100	100	2003/04-2006/07
Is gyfanswm Cyfnewidfeydd			***3828***	***3580***	
Parcio a Theithio					
	Ffordd Fynediad Parcio a Theithio Strategol Gorsaf Caerffili	C	150	150	2003/04-2006/07
Nodyn 4	Parcio a Theithio Pentrebach	MT	50	50	2001/02-2006/07
Is gyfanswm Parcio a Theithio			***200***	***200***	
Cysylltu â'r Rhwydwaith					
	Rhwydweithiau Bysiau o Safon Pont-y-pŵl, Trefddyn a Blaenafon (Pecyn W-03)	T	5	5	2003/04-2005/06
	Gwelliannau i safleoedd bysiau Merthyr Tudful	MT	100	100	2000/01-2008/09
Is gyfanswm Cysylltu â'r Rhwydwaith			***105***	***105***	
CYFANSWM			**39018**	**30540**	

ALLWEDD

B	Bro Morgannwg	**M**	Sir Fynwy
BG	Blaenau Gwent	**MT**	Merthyr Tudful
C	Caerffili	**P**	Pen-y-bont ar Ogwr
CN	Casnewydd	**RhCT**	Rhondda Cynon Taf
DC	Dinas Caerdydd	**T**	Torfaen

Nodiadau

(1) Cyllido corfforaethol, gwnaeth CBS Torfaen y cais yma fel Trysorydd TIGER

(2) Gwnaeth Rheilffordd Cwm Ebwy, CBS Blaenau Gwent y cais ar y cyd ar ran Consortiwm Cwm Ebwy (Blaenau Gwent, Caerffili a Chasnewydd)

(3) Cafodd y cynlluniau hyn daliad ar y cyd felly proffil cost heb ei gytuno. Swm mynegol yn seiliedig ar gyfran o'r cais/taliad

(4) Cyfran a rennir o'r gronfa Wrth Gefn rhag ofn na chwblheir un cynllun neu'r llall yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol
* Diffyg mewn cyllid yn cael ei lenwi gan Gyllid Cyfatebol Amcan 1

ATODIAD A

2. Cefndir Sewta

Sefydlwyd Sewta (Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru) ar Ebrill 1af 2003. Consortiwm cyfreithiol ydyw o 10 awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru, gyda phartneriaid yn cynrychioli buddion gweithredwyr a defnyddwyr cludiant cyhoeddus a beicwyr.

Mae gwaith Sewta yn cael ei gyflawni gan swyddogion awdurdodau lleol a staff y Partneriaid. Mae gan Sewta Ysgrifenyddiaeth er mwyn cyflawni tasgau gweinyddol a threfniadol, ac y mae'n galluogi'r swyddogion i ganolbwyntio ar gynlluniau technegol. Gellir gweld diagram yn dangos strwythur Sewta a chylchoedd gorchwyl Gweithgorau Sewta ar y wefan www.sewta.gov.uk.

Aelodau Sewta yw'r awdurdodau lleol canlynol:

- Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bro Morgannwg

Gweithiwn mewn partneriaeth â:

- Trenau Arriva Cymru (yn cynrychioli gweithredwyr trenau)
- Cydffederasiwn Trafnidiaeth Teithwyr (cynrychioli gweithredwyr bysiau)
- Network Rail
- Bus Users UK
- Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd Cymru
- Sustrans

3. Rôl Sewta

Prif swyddogaethau Sewta yw:

- paratoi strategaethau, cynlluniau a rhaglenni trafnidiaeth rhanbarthol
- ceisio am gyllid allanol i weithredu'r rhaglenni hynny
- gweithredu ar ran y Cynghorau o ran gweithredu elfennau o'r rhaglen sy'n cael eu hariannu gan y cyllid hwnnw
- ymateb i ddogfennau ymgynghori sydd â dimensiwn rhanbarthol
- cynghori'r Awdurdodau ar faterion trafnidiaeth

Yr awdurdodau lleol yw awdurdodau'r priffyrdd ac felly hwy sy'n ysgwyddo holl gyfrifoldebau'r materion sy'n ymwneud â ffyrdd: mae'n bwysig nodi nad oes gan Sewta'r cyfrifoldebau yma ar hyn o bryd, er bod rhai materion polisi yn gorgyffwrdd, a lle mae materion gwasanaethau a chyfleusterau cludiant cyhoeddus yn codi. Dyma agwedd o'r sefyllfa bresennol a fydd yn debygol o gael ei hadolygu yng nghyd-destun Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (gweler isod).

Nid yw Sewta yn berchen ar, nac yn rhedeg, bysiau a threnau, felly mae ein trefniadau partneriaeth gyda darparwyr cludiant cyhoeddus yn hanfodol i barhad llwyddiant.

Nodau ac Amcanion

Nod craidd Sewta yw ***"gweithio tuag at gludiant mwy effeithiol ac wedi ei gydlynu'n well ar gyfer pobl a busnesau yn Ne Ddwyrain Cymru".***

Mae'r nod craidd yn cael ei ategu gan y saith amcan allweddol, gyda phob amcan yn cynnwys ei gamau gweithredu ei hun, a welir isod. Mae'r gweithredoedd yn dangos y prif feysydd gwaith a bydd Sewta yn ymdrechu i ddatblygu'r gweithredoedd ar bob cyfle.

Amcan Allweddol 1. Gweithio mewn partneriaeth gyda phobl a sefydliadau sydd â rhan mewn Trafnidiaeth yn Ne Ddwyrain Cymru

- Bydd Sewta yn ymdrechu i gynnwys pobl De Ddwyrain Cymru yn ei waith, ac i feithrin perthynas gyda'r gymuned fusnes a chyrff eraill sy'n ymwneud â chludiant
- Bydd Sewta yn ceisio cynnal y berthynas agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a sicrhau y bydd ei gysylltiadau mewnol yn cynorthwyo'r awdurdodau lleol i chwarae rhan lawn i ddatblygu Trafnidiaeth yn Ne Ddwyrain Cymru.

Gweithredu gan: *Yr Ysgrifenyddiaeth, Y Gyfarwyddiaeth, Y Bwrdd a Phob Gweithgor*

Amcan Allweddol 2. Cydlynu cyflawniad strategaeth drafnidiaeth integredig ar gyfer De Ddwyrain Cymru, gan edrych i ddylanwadu'r dewis moddol drwy gymysgedd priodol o brosiectau trafnidiaeth a chefnogi polisïau ym maes cludiant a meysydd perthynol eraill

- Bydd Sewta yn cydlynu rhaglen prosiect trafnidiaeth gyhoeddus rhanbarthol a gwneud ceisiadau priodol am gyllid
- Bydd Sewta yn dynodi achosion am geisiadau grant yn y dyfodol ac yn comisiynu gwaith er mwyn asesu eu cost a'u manteision

Gweithredu gan: *Yr Ysgrifenyddiaeth, Y Gyfarwyddiaeth, Y Bwrdd a Phob Gweithgor*

Amcan Allweddol 3. Hyrwyddo swyddogaeth hollbwysig trafnidiaeth mewn cynllunio economaidd a defnydd tir, ac i ddylanwadu ar ddatblygiad tir er mwyn sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer cludiant ac yn benodol cludiant cyhoeddus

- Bydd Sewta yn ceisio sicrhau bod y rhai sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu economaidd a chynllunio defnydd tir yn deall ac yn arddel pwysigrwydd trafnidiaeth
- Bydd Sewta yn cymryd camau i sicrhau fod anghenion trafnidiaeth, yn cynnwys cludiant cyhoeddus yn enwedig, yn amlwg yng nghyd-destun datblygiad defnydd tir
- Bydd Sewta yn pwysleisio cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol trafnidiaeth ac yn enwedig cludiant cyhoeddus

Gweithredu gan: *Yr Ysgrifenyddiaeth, Y Gyfarwyddiaeth, Y Bwrdd a Gweithgorau Polisi a Chyfathrebu*

Amcan Allweddol 4. Sicrhau bod diogelwch, cynaliadwyedd a chynhwysiad cymdeithasol yn cael eu hystyried yn llawn mewn cynlluniau trafnidiaeth

- Bydd Sewta yn ceisio hybu gwelliannau mewn diogelwch y cyhoedd a staff ym maes trafnidiaeth
- Bydd Sewta yn arwain wrth hybu cynhwysiad cymdeithasol mewn trafnidiaeth drwy gynllunio hygyrchedd

Gweithredu gan: *Yr Ysgrifenyddiaeth, Y Gyfarwyddiaeth, Y Bwrdd a Gweithgorau Rheilffyrdd, Bysiau a Pholisi*

Amcan Allweddol 5. Ceisio cynyddu'r adnoddau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru a sicrhau'r gyfran uchaf bosibl i ardal De Ddwyrain Cymru

- Bydd Sewta yn ceisio dylanwadu ar gyrff cyllido yng Nghymru, y DU a thu hwnt i sicrhau bod rhagor o adnoddau ar gael ar gyfer trafnidiaeth
- Bydd Sewta yn defnyddio pob cyfle i gyflwyno achos ar gyfer buddsoddiad pellach mewn trafnidiaeth, ac yn benodol cludiant cyhoeddus.
- Bydd Sewta yn cefnogi gwaith i geisio darganfod ffynonellau ychwanegol o gyllid ar gyfer trafnidiaeth yn y tymor byr, canolig a hir.

Gweithredu gan: *Yr Ysgrifenyddiaeth, Y Gyfarwyddiaeth, Y Bwrdd a'r Gweithgor Cyllid*

Amcan Allweddol 6. Anelu i gael safonau cyffredin ar gyfer trafnidiaeth dros ardal De Ddwyrain Cymru, yn seiliedig ar arfer gorau, i geisio defnydd cost effeithiol o adnoddau ac i ddynodi a monitro targedau er mwyn barnu llwyddiant ei strategaeth

- Bydd Sewta yn ceisio cysondeb mewn darpariaeth trafnidiaeth yn Ne Ddwyrain Cymru drwy ddynodi arfer gorau a hybu safonau cyffredin
- Bydd Sewta yn sefydlu targedau trafnidiaeth, dangosyddion perfformiad a phrosesau monitro yn gyson
- Bydd Sewta yn hybu gwerth am arian mewn gwariant trafnidiaeth

Gweithredu gan: *Yr Ysgrifenyddiaeth, Y Gyfarwyddiaeth, Y Bwrdd a Phob Gweithgor*

Amcan Allweddol 7. Gwthio'r ddadl polisi er mwyn hyrwyddo trafnidiaeth, ac yn benodol cludiant cyhoeddus, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl llywodraeth leol mewn trafnidiaeth

- Bydd Sewta yn sefydlu ei hun yn flaenllaw ym maes trafnidiaeth
- Ni fydd Sewta yn colli'r un cyfle i bwysleisio pwysigrwydd trafnidiaeth i Lywodraeth a rhanddeiliaid eraill
- Bydd Sewta yn gweithredu ar ran yr awdurdodau lleol drwy ymateb i ymarferiadau ymgynghorol perthnasol neu arall, yn cynnwys cyfeiriadau yn neu gan y cyfryngau
- Bydd Sewta yn hyrwyddo ei weithgarwch a'i lwyddiannau yn ogystal â rhai'r awdurdodau, o fewn y rhanbarth a thu hwnt.

Gweithredu gan: *Yr Ysgrifenyddiaeth, Y Gyfarwyddiaeth, Y Bwrdd a Gweithgorau Polisi a Chyfathrebu*

Cylch Gorchwyl y Gweithgorau

Mae Sewta'n gyrru materion rhagddynt drwy'r strwythur gweithio canlynol:

Insert Sewta Structure here

Gweithgor Polisi

(i) Archwilio i faterion trafnidiaeth sydd o ddiddordeb cyffredin i awdurdodau Sewta, gan ddatblygu a diweddaru Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

(ii) Cyfrannu at ddatblygiad, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o bolisïau mawr megis Cynllun Gofodol Cymru.

(iii) Datblygu a hyrwyddo safbwyntiau cyffredin o faterion polisi trafnidiaeth ranbarthol a thu allan i'r rhanbarth, ar gyfer traffig teithwyr a llwythi nwyddau.

(iv) Archwilio i briodoldeb technoleg newydd mewn perthynas â rheolaeth trafnidiaeth (e.e. modelu hygyrchedd), a chynghori Awdurdodau Lleol, Partneriaid a gweithgorau eraill ynglŷn â datblygiadau o'r fath.

(v) Darparu gwybodaeth am effaith gweithgareddau Sewta fydd yn caniatáu iddynt gael eu mesur o safbwynt effeithiolrwydd.

(vi) Sicrhau bod y gyfundrefn fonitro yn ymwneud ag amcanion Sewta a'i bod yn cael ei dilyn trwy broses o reolaeth weithredol.

(vii) Llunio adroddiad blynyddol ar dueddiadau teithio a newidiadau sy'n cael effaith ar y system drafnidiaeth.

(viii) Datblygu a gweithredu Polisi Beicio a Cherdded ar gyfer y rhanbarth.

(ix) Ceisio sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni rhaglen o welliannau i lwybrau beicio a pharatoi a blaenoriaethu ceisiadau am gyllid.

(x) Rheoli Cronfa Ddata Cydlynwyr Cynllun Teithio a Chynllun Rhannu Ceir Sewta

(xi) Cydlynu gweithgareddau gyda rhai gweithgorau eraill o fewn Sewta.

(xii) Adrodd i'r Gyfarwyddiaeth, y Bwrdd a Grŵp Rheoli'r Ysgrifenyddiaeth fel y bo'n briodol.

(xiii) Rheoli elfen polisi'r gyllideb Gorfforaethol ac adrodd trwy gyfrwng y Gweithgor Cyllid.

Gweithgor Bysiau

(i) Gwella a hyrwyddo cludiant cyhoeddus, yn enwedig bysiau.

(ii) Datblygu a gwella darpariaeth gwybodaeth a chyhoeddusrwydd gwasanaethau bysiau.

(iii) Datblygu strategaeth bysiau gynhwysfawr, fydd yn cyfrannu at strategaeth trafnidiaeth integredig Sewta.

(iv) Hyrwyddo prosiectau i wella diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig defnyddwyr a staff bysiau.

(v) Datblygu defnydd o Gardiau Call a thocynnu integredig.

(vi) Gwella hygyrchedd at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau a

datblygu cyfraniad gwasanaethau bysiau i gynhwysiad cymdeithasol.

(vii) Llunio ymatebion cydlynedig, ar ran yr awdurdodau cyfansoddol, ar gyfer ymgynghoriadau ynglŷn â bysiau.

(viii) Cydlynu gweithgareddau gyda rhai o weithgorau eraill Sewta.

(ix) Ymdrechu i sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i gyflwyno gwelliannau i isadeiledd a gwasanaethau bysiau a pharatoi a blaenoriaethu ceisiau am gyllid.

(x) Adrodd i'r Gyfarwyddiaeth, y Bwrdd a Grŵp Rheoli'r Ysgrifenyddiaeth fel y bo'n briodol.

(xi) Rheoli elfen bysiau'r gyllideb Gorfforaethol ac adrodd trwy gyfrwng y Gweithgor Cyllid.

Gweithgor Rheilffyrdd

(i) Datblygu a chyflwyno strategaeth rheilffyrdd gynhwysfawr ar gyfer De Ddwyrain Cymru.

(ii) Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gludiant cyhoeddus, yn enwedig y rheilffyrdd.

(iii) Llunio ymatebion cydlynedig, ar ran yr awdurdodau cyfansoddol, ar gyfer ymgynghoriadau ynglŷn â rheilffyrdd.

(iv) Cydweithio gyda phartïon sydd â diddordeb (e.e. Yr Adran Drafnidiaeth, Arolygiaeth Rheilffyrdd ei Mawrhydi, Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd, gweithredwyr teithwyr a llwythi nwyddau, grwpiau defnyddwyr a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â'r consortia cyfagos yng Nghymru a Lloegr) ar faterion yn ymwneud â rheilffyrdd.

(v) Hyrwyddo prosiectau rheilffyrdd sy'n gwneud cyfraniad llawn i economi, hygyrchedd a defnydd tir y rhanbarth, sy'n gwbl integredig gyda moddau cludiant eraill ac sy'n cynnig opsiwn teithio diogel, cwbl hygyrch a chynaliadwy.

(vi) Ceisio cynyddu a manteisio'n llawn ar y gyfran o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer buddsoddi mewn cludiant cyhoeddus, a gofalu bod defnydd cost effeithiol yn cael ei wneud ohonynt.

(vii) Cydlynu gweithgareddau gyda rhai o weithgorau eraill Sewta.

(viii) Adrodd i'r Gyfarwyddiaeth, y Bwrdd a Grŵp Rheoli'r Ysgrifenyddiaeth fel y bo'n briodol.

Gweithgor Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus

(i) Gweithredu fel canolbwynt i holl gyfathrebu a materion cyhoeddus Sewta.

(ii) Dynodi cyfleoedd i hybu strategaeth a gwaith prosiect Sewta a gwaith ei awdurdodau cyfansoddol.

(iii) Goruchwylio'r cyswllt gyda'r cyfryngau, yn lleol ac yn genedlaethol, a chyda'r wasg fasnachol.

(iv) Rheoli cynnwys y wefan i sicrhau fod gweithgareddau Sewta'n agored ac yn glir.

(v) Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddewisiadau heblaw'r car ar gyfer cludiant preifat.

(vi) Rheoli cysylltiadau mewnol Sewta, drwy'r wefan a ffyrdd eraill.

(vii) Cydlynu gweithgareddau gyda rhai gweithgorau eraill Sewta.

(viii) Adrodd i'r Gyfarwyddiaeth, y Bwrdd a Grŵp Rheoli'r Ysgrifenyddiaeth fel y bo'n briodol.

(ix) Cyfarwyddo'r gwaith a wneir gan yr adnoddau sydd wedi eu priodoli i gyfathrebu a materion cyhoeddus, rheoli'r elfen honno o'r gyllideb Gorfforaethol ac adrodd trwy gyfrwng y Gweithgor Cyllid.

Gweithgor Cyllid

(i) Sicrhau fod gan strategaethau a chynlluniau Sewta seiliau cadarn o ran argaeledd adnoddau a gwerth am arian.

(ii) Sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r cynlluniau a'r strategaethau hynny, gan gynnwys datblygu ffyrdd arloesol tuag at gynyddu lefel cyllid ar gyfer trafnidiaeth.

(iii) Sicrhau fod pob incwm a gwariant yn cael ei reoli, ei dderbyn a'i gyfrifo'n briodol.

(iv) Sicrhau fod adroddiadau ariannol rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r Gyfarwyddiaeth.